# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 9fed o Dachwedd 2022 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Ruby Williams, Carys Morgan, Wyn Jones, Gerallt Davies a Hywel Lloyd.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies, a’r Cynghorwyr Garym Roberts, Jocelyn Andrew a Wyn Evans.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Hydref a’u cafwyd yn gywir.

**Codi o’r cofnodion:**
Penderfynwyd i’r Cyngor Cymuned gyfrannu £1000 tuag at golau ychwanegol yn Nerwen Gam ac hefyd gofynwyd i’r clerc esbonio i Simon Bray mae ail osod golau a dim golau Newydd sbon fydd ym Mro Ddewi, Ffos-y-ffin ar ol i’r Cyngor Sir  gael ei wared rhai blynyddoedd yn ol.

**Llythyr oddiwrth Ben Lake AS**
Darllenwyd lythyr oddiwrth ein Aelod Seneddol Ben Lake yn rhoi rhestr o gynlluniau ar wahanol gymorth sydd ar gael i helpu gyda costiau ynni. Penderfynwyd roi copiau o'r llythyron ar hysbysfyrddau'r plwyf ac ar ein gwefan.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Unrhyw fater arall:**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 14eg o Ragfyr.